



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# ARFARNIAD CYNALIADWYEDD INTEGREDIG O'R FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL

**CRYNODEB ANNHECHNEGOL:**

Arfarniad o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol:  
Adroddiad ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig  
(ACI) (gan gynnwys yr Adroddiad Amgylcheddol)

MEHEFIN 2019

## RHEOLI FERSIYNAU

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Gwiriwr	Newidiadau
0.1	Tachwedd 2018	Joseph Evans Sarah Tooby	David Hourd	Templed strwythur yr adroddiad drafft
0.2	20 Mai 2019	Joseph Evans Sarah Tooby	David Hourd	Drafft o'r adroddiad cyntaf (ANGHYFLAWN)
0.3	7 Mehefin 2019	Joseph Evans Sarah Tooby	David Hourd	Drafft terfynol i'r cleient ei adolygu
1.0	21 Mehefin 2019	Joseph Evans Sarah Tooby	David Hourd	Fersiwn derfynol i'w chyfieithu

Paratowyd yr adroddiad hwn, dyddiedig 20 Mehefin 2019 ar gyfer Llywodraeth Cymru (y "Cleient") yn unol â'r telerau ac amodau penodi, (y "Penodiad") rhwng y Cleient ac **Arcadis Consulting UK**. ("Arcadis") at y dibenion a bennir yn y Penodiad. Er mwyn osgoi amheuaeth, ni chaiff unrhyw berson(au) ddefnyddio na dibynnu ar yr adroddiad hwn na'i gynnwys, ac nid yw Arcadis yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddefnydd neu ddibyniaeth o'r fath gan unrhyw drydydd parti arall.

# CYNNWYS

<b>RHEOLI FERSIYNAU .....</b>	<b>1</b>
<b>DIBEN Y CRYNODEB ANNHECHNEGOL .....</b>	<b>3</b>
<b>BETH YW'R FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL? .....</b>	<b>3</b>
<b>BETH YW'R ARFARNIAD CYNALIADWYEDD INTEGREDIG? .....</b>	<b>3</b>
<b>PROSESAU'R ACI A'R FFDC HYD YN HYN .....</b>	<b>3</b>
<b>SUT Y CYNHALIWDYD YR ACI.....</b>	<b>4</b>
<b>Fframwaith yr ACI.....</b>	<b>5</b>
<b>ASESIAD O'R FFDC DRAFFT .....</b>	<b>6</b>
<b>Canlyniadau'r Arfarniad – Canlyniadau'r FfDC .....</b>	<b>6</b>
<b>Canlyniadau'r Arfarniad – Materion ac Opsiynau (a aseswyd Tachwedd 2017).....</b>	<b>7</b>
<b>Canlyniadau'r arfarniad – Yr Opsiwn a Ffefrir (a aseswyd fis Chwefror 2018) .....</b>	<b>8</b>
<b>Argymhellion.....</b>	<b>9</b>
<b>CANLYNIADAU'R ARFARNIAD – FFDC DRAFFT (A ASESWYD FIS MAI 2019).....</b>	<b>9</b>
<b>STRATEGAETH OFODOL .....</b>	<b>9</b>
<b>POLISIÄU.....</b>	<b>10</b>
<b>OSGOI, LLEIHOU NEU LINIARU EFFEITHIAU NEGyddOL A SICRHAU CYMAINT O EFFEITHIAU CADARNHAOL Ä PHOSIBL – CRYNODEB O'R ARGYMHELLION.....</b>	<b>10</b>
<b>CANFYDDIADAU'R ASESAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD A SUT Y MAE'R RHAIN WEDI CYFRANNU AT YR ASESAD.....</b>	<b>11</b>
<b>MONITRO EFFEITHIAU SYLWEDDOL.....</b>	<b>11</b>
<b>YMGYNGHORI A'R CAMAU NESAF .....</b>	<b>12</b>

## Diben y Crynodeb Annhechnegol

- 1.1.1 Mae'r ddogfen hon yn crynhoi, mewn iaith annhechnegol, Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) Drafft Llywodraeth Cymru. Ceir rhagor o fanylion yn yr Adroddiad ACI Drafft llawn ei hun.

## Beth yw'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol?

- 1.1.2 Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn paratoi FfDC i roi cyd-destun gofodol ar gyfer datblygu yng Nghymru dros yr 20 mlynedd nesaf. Defnyddir yr FfDC i arwain buddsoddiad cyhoeddus a phreifat. Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod buddsoddiadau a datblygiadau – boed yn rhai mawr neu fach o ran maint – yn cyfrannu at uchelgeisiau ehangach Llywodraeth Cymru a lles cymunedau. Bydd yr FfDC, felly, yn dylanwadu ar sut y bydd cymunedau'n datblygu dros yr 20 mlynedd nesaf ac mae'n bwysig bod gennym ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r effeithiau cadarnhaol a negyddol y gallai hyn eu cael wrth i'r FfDC gael ei ddatblygu. Dylid darllen yr FfDC ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru (PCC) ac nid yw'n ailadrodd PCC, sy'n darparu polisi cynllunio ar sail Cymru gyfan. Mae'r FfDC yn disodli Cynllun Gofodol Cymru.

## Beth yw'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig?

- 1.1.3 Proses o arfarnu cynnwys yr FfDC, wrth ei ysgrifennu, yw'r ACI, yn erbyn cyfres o amcanion cynaliadwyedd, er mwyn helpu i hybu datblygiad cynaliadwy a phrofi'r FfDC cyn iddo ddod i rym. Cynhaliwyd yr ACI, felly, trwy gydol y gwaith o baratoi'r FfDC ac mae wedi gallu rhoi argymhellion i wella perfformiad datblygu cynaliadwy cymharol yr FfDC. Mae'r ACI yn ofyniad gan Lywodraeth Cymru ac mae'n bodloni gofynion cyfreithiol Cyfarwydddeb Asesu Amgylcheddol Strategol Ewropeaidd. Mae'r ACI yn un lefel uchel ac mae'n ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol yr FfDC. Diben hwn yw helpu i sicrhau bod defnyddiau tir yng Nghymru yn y dyfodol, dros yr 20 mlynedd nesaf, yn gynaliadwy.
- 1.1.4 Un o'r 'ffyrdd o weithio' sy'n ffurfio rhan o egwyddor datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru yw'r angen i arddel dull integredig i'r hyn yr ydym yn ei wneud. Mae'r ACI, felly, yn cynnwys nifer o asesiadau statudol ac anstatudol eraill. Mae hyn yn caniatáu inni fod â darlun mwy cytbwys o'r goblygiadau a'r cyfleoedd o ran cynaliadwyedd sy'n codi o'r FfDC. Mae'r ACI yn cyfuno'r asesiadau a'r gofynion canlynol: yr Arfarniad Cynaliadwyedd; Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA); Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015); Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb; Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant; Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a Pholisi Adnoddau Naturiol (Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016). Mae'r ACI hefyd yn ystyried gofynion yr asesiadau anneddfwriaethol sy'n ymwneud â Phrawfesur Gwledig; Effeithiau lechyd; Newid Hinsawdd; a Datblygiad Economaidd.
- 1.1.5 Cynhaliwyd proses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar wahân i'r ACI, sy'n asesu effeithiau'r FfDC ar safleoedd Natura 2000, a ddiogelir gan Gyfraith yr UE neu a gaiff eu trin felly drwy bolisi llywodraeth. Y rhain yw Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, yn ogystal â safleoedd ymgeisiol a photensial o'r fath, a safleoedd Ramsar. Mae'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ceisio sicrhau na fydd yr FfDC yn achosi effeithiau sylweddol tebygol ar unrhyw safle Natura 2000.
- 1.1.6 Mae cyfuno'r asesiadau hyn yn sicrhau yr ymgwymerir â dull cydweithredol ar wahanol faterion, gan rannu gwybodaeth a chydabod cysylltiadau rhwng pynciau mewn modd cyson a thryloyw.

## Prosesau'r ACI a'r FfDC hyd yn hyn

- 1.1.7 Dechreuodd y gwaith o baratoi ar gyfer yr FfDC â phroses o gasglu tystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod gaeaf 2016/17. Yng ngwanwyn 2017, gwnaed rhagor o waith i nodi materion ar gyfer yr FfDC ar ôl y digwyddiadau ymgysylltu. Ar y cam hwn, datblygwyd syniadau cychwynnol ar gyfer amcanion ac opsiynau strategol posibl yr FfDC.

- 1.1.8 Dechreuodd cam cyntaf yr ACI (Cwmpasu) hefyd ar yr adeg hon. Yn unol â chanllawiau cyhoeddedig, roedd cam Cwmpasu'r ACI yn cynnwys y tasgau canlynol:
- Pennu cwmpas a lefel manylder yr ACI;
  - Nodi cynlluniau, polisiau, rhaglenni a mentrau perthnasol a fydd yn llywio proses yr ACI a'r FfDC;
  - Nodi gwybodaeth berthnasol am yr amodau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol yng Nghymru, ar raddfa genedlaethol, ar hyn o bryd a'r amodau hyn a ragwelir yn y dyfodol;
  - Nodi materion a chyfleodd cynaliadwyedd allweddol; a
  - Chyflwyno fframwaith ar gyfer yr ACI, er mwyn gallu arfarnu'r FfDC yn ei erbyn.
- 1.1.9 Cofnodwyd y tasgau hyn yn yr Adroddiad Cwmpasu ACI Drafft y cynhaliwyd ymgynghoriad arnynt rhwng 28 Ebrill a 21 Gorffennaf 2017. Yn ogystal â hyn cynhaliwyd gweithdy rhanddeiliaid yn gynnar ym mis Mai 2017. Cyflwynwyd yr Adroddiad Cwmpasu ACI Drafft i Gyfoeth Naturiol Cymru a Cadw er mwyn iddynt nodi eu sylwadau. Fe'i hanfonwyd hefyd at ymgynghoreion statudol y tu allan i Gymru a allai gael eu heffeithio'n anuniongyrchol gan yr FfDC, sef Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England a Historic England; yn ogystal â rhanddeiliaid ehangach fel y Royal Society for the Protection of Birds (RSPB). Llywiwyd yr Adroddiad Cwmpasu Terfynol (Ebrill 2018) gan yr ymgysylltiad a'r cyfranogiad hwn gan rhanddeiliaid.
- 1.1.10 Gan ddefnyddio'r sylwadau o'r ymgynghoriad, dechreuodd gwaith yn ystod haf/hydref 2017 i ddatblygu ymhellach Amcanion ac Opsiynau Strategol amlinellol ar gyfer yr FfDC. Cynhaliwyd Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd cychwynnol, lefel uchel ar yr adeg hon.
- 1.1.11 Ym mis Tachwedd 2017, cynhaliwyd ACI ar amcanion ac opsiynau strategol cychwynnol yr FfDC a rhoddwyd canlyniadau hwn i dîm yr FfDC er mwyn dylanwadu ar y gwaith o'u datblygu ymhellach. Cynhaliwyd ACI ar y fersiwn nesaf o amcanion ac opsiynau a chynhaliwyd Sgriniad Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd Cychwynnol yn ystod gaeaf 2017/18. Cofnodwyd canfyddiadau'r rhain mewn Adroddiad ACI Dros Dro a oedd yn cyd-fynd â'r ymgynghoriad ar y fersiwn Materion ac Opsiynau o'r FfDC rhwng 30 Ebrill 2018 a 23 Gorffennaf 2018.
- 1.1.12 Roedd yr ACI ar y cam hwn yn cynnwys y tasgau canlynol:
- Profi amcanion y cynllun o'u cymharu ag amcanion yr ACI;
  - Datblygu opsiynau'r cynllun;
  - Rhagweld yr effeithiau (gan gynnwys effeithiau cronol ac eilaidd) opsiynau'r cynllun a'r opsiynau amgen;
  - Gwerthuso effeithiau (gan gynnwys effeithiau cronol ac eilaidd) opsiynau'r cynllun a'r opsiynau amgen; ac
  - Ystyried ffyrdd o liniaru effeithiau negyddol a sicrhau cymaint o effeithiau cadarnhaol â phosibl.
- 1.1.13 Mireiniwyd yr ACI ymhellach ac fe'i diwygiwyd i ystyried yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad.
- 1.1.14 Yn seiliedig ar yr uchod, lluniwyd yr FfDC Drafft yn unol â'r pum ffordd o weithio sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bu'n ddull a gyflwynwyd gam wrth gam yn seiliedig ar ddatblygu cyfres o opsiynau realistig a'u mireinio yn opsiwn a ffefrir, cyn symud ymlaen i gynllun drafft llawn. Dylanwadwyd ar y gwaith hwn yn gryf gan gyfranogiad y cyhoedd a rhanddeiliaid a dull trawslywodraethol.

## Sut y cynhaliwyd yr ACI

- 1.1.15 Ysgogwyd cwmpas daearyddol yr ACI gan gwmpas daearyddol yr FfDC h.y. Cymru gyfan. Y bwriad yw bod yr FfDC fod yn gymwys hyd at 2040 ar ôl ei gyhoeddi yn 2020. Adlewyrchwyd yr amserlen hon yn yr ACI. Bwriad yr ACI yw galluogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy i gael eu hymwreiddio yn yr FfDC o'r cychwyn cyntaf.

## Fframwaith yr ACI

1.1.16 Cynnyrch allweddol o Gam Cwmpasu'r ACI oedd Fframwaith yr ACI. Fframwaith yr ACI yw'r prif offeryn asesu a ddefnyddir yn ystod yr ACI ac mae'n cynnwys cyfres o 17 o amcanion yn cwmpasu materion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol a nodwyd drwy'r cam Cwmpasu. Caiff ei ddefnyddio i brofi perfformiad y cynigion a gynigir yn yr FfDC. Mae ein dull integredig o asesu effaith yr FfDC yn dod ag asesiadau allweddol at ei gilydd mewn un fframwaith arfarnu. Rhestrir amcanion yr ACI yn Nhabl NTS-1. Caiff pob agwedd ar yr FfDC ei arfarnu i benderfynu pa mor dda y byddai'n cyfrannu at, neu'n amharu ar, bob Amcan o'r ACI.

Tabl NTS-1: Amcanion yr ACI yn Fframwaith yr ACI, er mwyn arfarnu'r FfDC o'i gymharu ag ef

Rhif	Amcan yr ACI
1	Annog a chefnogi gwelliannau i gyrhaeddiad addysgol ar gyfer pob grŵp oedran a phob sector o'r gymdeithas er mwyn helpu i wella cyfleoedd am oes
2	Cyfrannu at wella iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol i bawb gan gynnwys cyfrannu at leihau anghydraddoldeb iechyd ledled Cymru
3	Creu cyfleoedd i gynyddu cyflogaeth ledled y wlad a hybu cynhwysiant economaidd
4	Creu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd, amrywiaeth a chystadleurwydd busnes cynaliadwy
5	Cyfrannu at lesiant y Gymraeg yn y dyfodol
6	Creu cyfleoedd lle gellir gostwng a chyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ac annog dylunio cynaliadwy ac effeithlon o ran ynni
7	Creu cyfleoedd i annog y gwaith o ddiogelu a gwella ansawdd aer
8	Creu cyfleoedd i ddiogelu, gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol, asedau hanesyddol a'u safleoedd
9	Creu'r cyfleoedd i ddiogelu a hybu diwylliant Cymru
10	Cyfrannu at leihau a rheoli llifogydd
11	Creu'r cyfleoedd i ddiogelu a gwella ansawdd a nifer nodweddion ac adnoddau dŵr
12	Creu'r cyfleoedd i wella cysylltedd cymunedau a'r gallu cynaliadwy i gael gafael ar nwyddau, gwasanaethau ac amwynderau sylfaenol
13	Creu'r cyfleoedd i wella cynhwysiant cymdeithasol a chydraddoldeb
14	Creu cyfleoedd i ddarparu tai fforddiadwy, diogel o ansawdd da sy'n diwallu anghenion a nodwyd
15	Creu'r cyfleoedd i ddiogelu a gwella gwahaniaethau lleol ein tirweddau, ein trefluniau a'n morluniau
16	Creu'r cyfleoedd i warchod a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth

Rhif	Amcan yr ACI
17	Creu'r cyfleoedd i ddefnyddio a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ystyried eu buddion a'u gwerth cynhenid

## Asesiad o'r FfDC Drafft

1.1.17 Mae'r ACI yn broses sy'n ailadrodd ei hun ac mae'n cynnwys arfarnu a rhoi adborth i wneuthurwyr y cynllun ar gamau niferus yn natblygiad yr FfDC. Hyd yn hyn, mae'r ACI wedi arfarnu'r canlynol:

- Dadansoddiad o Dueddiadau yn y Dyfodol – mae hwn yn ystyried sut y mae'r tueddiadau sylfaenol ar gyfer y pynciau y mae Amcanion yr ACI yn eu cwmpasu yn debygol o ddatblygu yn absenoldeb FfDC. Mae'n rhoi crynodeb meincnod defnyddiol y gellir cymharu'r arfarniad o'r FfDC ag ef;
- Canlyniadau'r FfDC (y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol yn Weledigaeth ac Amcanion yr FfDC) (gan gynnwys Opsiynau Amgen Rhesymol i'r rhain);
- Opsiynau Strategol (Opsiyndau Amgen Rhesymol) ar gyfer y Dull Gofodol (pedwar opsiwn ac opsiwn meincnod/Gwneud Dim);
- Dewis a Ffeirir gan yr FfDC (y Dull Gofodol a ffeirir); a'r
- FfDC Drafft (gan gynnwys Dull Gofodol, Polisiâu a'r Opsiynau Amgen Rhesymol iddynt).

1.1.18 Mae'r FfDC Drafft wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- 1. Cyflwyniad;
  - *Mae'n nodi beth yw'r FfDC, sut y mae'n cyd-fynd â pholisi ehangach Llywodraeth Cymru a sut y mae'n cyd-fynd â chynlluniau strategol a lleol.*
- 2. Cymru: Trosolwg o'r Heriau a'r Cyfleoedd;
  - *Mae'n nodi trosolwg o Gymru a rhai o'r tueddiadau demograffig, economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol allweddol; ac mae'n nodi'r heriau a'r cyfleoedd sydd wedi llywio'r FfDC cyntaf*
- 3. Canlyniadau'r FfDC;
  - *Mae'n nodi 11 o Ganlyniadau'r FfDC sy'n ddatganiad ar y cyd o'r sefyllfa y mae Llywodraeth Cymru yn dymuno i Gymru fod ynddi mewn 20 mlynedd.*
- 4. Opsiynau Strategol a Gofodol: Strategaeth Ofodol yr FfDC;
  - *Mae'n nodi'r strategaeth ofodol, y fframwaith arweiniol o ran lle bydd y pwyslais ar newid ar raddfa fawr a'r datblygiadau pwysig yn genedlaethol dros yr 20 mlynedd nesaf.*
- 5. Y Rhanbarthau.
  - *Mae'n nodi polisiâu'r FfDC ar gyfer tri rhanbarth Cymru.*

1.1.19 Mae'r arfarnu yn yr FfDC wedi canolbwyntio ar benodau 3, 4 a 5 o'r FfDC Drafft; y Strategaeth Ofodol a'r Polisiâu Rhanbarthol a'r Opsiynau Amgen Rhesymol iddynt.

## Canlyniadau'r Arfarniad – Canlyniadau'r FfDC

1.1.20 Cynhaliwyd asesiad o amcanion yr FfDC fel tair fersiwn yn Adroddiad ACI Dros Dro<sup>1</sup>. Mae'r sylwadau yn Nhabl B-2 o'r Adroddiad ACI Dros Dro yn cyflwyno proses ailadroddol o'r asesiad, a sut y mae argymhellion yr ACI wedi'u hystyried, pan fo'n berthnasol. Mae hyn yn dangos bod y rhan fwyaf o argymhellion yr ACI wedi'u cynnwys yn yr FfDC.

<sup>1</sup> Adroddiad ACI Dros Dro, ar gael ar-lein yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-04/180430-adroddiad-sgrinio-hra.rhagarweiniol.pdf> [Gwelwyd 290519]

## Canlyniadau'r Arfarniad – Materion ac Opsiynau (a aseswyd Tachwedd 2017)

1.1.21 Mae'r Adroddiad ACI Dros Dro yn cofnodi arfarniad Opsiynau Amgen a'r Opsiwn a Ffeirir gan yr FfDC. Datblygwyd pedwar Opsiwn Amgen ar gyfer yr FfDC ynghyd ag Opsiwn Meincnod sy'n cynnwys peidio â llunio FfDC. Roedd pob opsiwn yn destun ACI ym mis Tachwedd 2017. Ceir disgrifiad llawn o Opsiynau Amgen yr FfDC yn Atodiad C o'r Adroddiad ACI Dros Dro<sup>2</sup>. I grynhoi, yr opsiynau hyn oedd:

- Opsiwn Amgen 1 – Opsiwn yn canolbwyntio ar dwf yn y meysydd cryfaf o'r farchnad
- Opsiwn Amgen 2 – Opsiwn yn canolbwyntio ar greu cymunedau cryf ledled Cymru gyfan
- Opsiwn Amgen 3 – Opsiwn yn cyflawni amcanion datgarboneiddio a newid hinsawdd
- Opsiwn Amgen 4 – Opsiwn yn canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy
- Opsiwn Meincnod – Peidio â Pharatoi'r FfDC

1.1.22 Mae Atodiad C o'r Adroddiad ACI Drafft hefyd yn darparu rhesymau dros fwrw ymlaen â'r opsiynau hyn neu fel arall.

### Opsiwn Amgen 1

1.1.23 Ar y cyfan, mae Opsiwn 1 yn perfformio'n waeth na'r opsiynau eraill o'u hasesu yn erbyn y gyfres lawn o amcanion ACI. Er bod yr opsiwn yn debygol o greu cyfleoedd cyflogaeth a chyfleoedd economaidd drwy gyfeirio twf i'r meysydd cryfaf o'r farchnad fel y dinas-ranbarthau, ni fyddai'r manteision hyn yn cael eu lledaenu ledled Cymru gyfan gan gynnwys ardaloedd y mae angen buddsoddi ynddynt. Er y gallai achosi mwy o dwf economaidd yn y trefi a'r dinasoedd mwyaf, gallai gynyddu anghydraddoldeb rhwng ardaloedd trefol a gwledig a rhwng ardaloedd mwy a llai ffyniannus fel yn y cymoedd ac arfordir y gogledd. O ganlyniad, gallai hyn gael effaith andwyol ar iechyd a lles, cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb yn yr ardaloedd hynny. Nid yw'r opsiwn hwn wedi'i ysgogi'n gryf gan egwyddorion datblygiad cynaliadwy a byddai twf economaidd yn fwy o flaenoriaeth na'r amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig a allai arwain at effeithiau negyddol yn yr ardaloedd hyn.

### Opsiwn Amgen 2

1.1.24 Roedd perfformiad Opsiwn Amgen 2 yn sylweddol well nag Opsiwn Amgen 1. Mae'r opsiwn yn canolbwyntio ar anghenion lleol ar draws ardal ehangach, a all leihau anghydraddoldeb ac arwain at gynydd mewn buddion ar draws yr holl gymunedau. Gallai gwella hygyrchedd mewn cymunedau gwledig a gwrthdroi'r dirywiad yn nifer y boblogaeth arwain at gynydd yn nichonoldeb a'r gallu i gael gafael ar gyfleusterau, gan gynnwys manau agored a chynyddu'r gallu i fynd i'r amgylchedd naturiol, a all fod ag effeithiau buddiol sylweddol. Mae'r opsiwn yn cefnogi greu cymunedau cynaliadwy, manau wedi'u dylunio a'u cynllunio'n dda a fyddai'n ceisio addasu i'r risg o newid hinsawdd. Ni ragwelwyd effeithiau negyddol cryf ar gyfer yr opsiwn hwn.

### Opsiwn Amgen 3

1.1.25 Arweiniodd yr asesiad o Opsiwn 3 hefyd at ragweld effeithiau cadarnhaol cryf. Byddai'r opsiwn yn rhagweld y risgiau o newid hinsawdd i sicrhau bod patrymau datblygu yn y dyfodol yn ystyried, yn cael eu llywio, ac yn datblygu cydnerthedd i'r risgiau hyn. Mae'n rhoi pwyslais cryf ar gynllunio sut y bydd aneddiadau'n tyfu ac yn rhyng-gysylltu, a allai arwain at effeithiau buddiol sylweddol. Mae'r opsiwn hefyd yn ceisio datblygu cydnerthedd i newid hinsawdd mewn cymunedau, busnesau a'r amgylchedd naturiol. Byddai'r opsiwn yn darparu modd o gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn y lleoliadau mwyaf addas ac yn darparu fframwaith i gefnogi ei gyflawniad. Mae gan rai datblygiadau ynni adnewyddadwy y potensial ar gyfer effeithiau sylweddol ar y dirwedd (a'r treflun a'r morlun) ac effeithiau gweledol ond bydd hyn yn dibynnu ar y cynllun a'r lleoliad. Yn ogystal â hyn, ceir rhywfaint o ansicrwydd ynghylch a fyddai'r opsiwn yn achosi, ar y cyd, effeithiau negyddol ar

---

<sup>2</sup> Adroddiad ACI Dros Dro, ar gael ar-lein yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-04/180430-adroddiad-sgrinio-hra-rhagarweiniol.pdf> [Gwelwyd 290519]



fioamrywiaeth/geoamrywiaeth. Gallai llawer o'r ardaloedd a ystyrir yn addas ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy gynnwys safleoedd maes glas heb eu datblygu yn ymyl cymunedau gwledig presennol. Ni ragwelwyd effeithiau negyddol cryf ar gyfer yr opsiwn hwn.

#### **Opsiwn Amgen 4**

1.1.26 Rhagwelwyd effeithiau cadarnhaol cryf ar gyfer saith o amcanion yr ACI yn yr asesiad o Opsiwn Amgen 4. Mae'r opsiwn yn cynnwys pwyslais sylweddol ar gydnerthedd i newid hinsawdd. Byddai'r opsiwn yn ceisio cyflawni egwyddorion datblygu cynaliadwy, gan gynnwys lleihau llygredd, osgoi effeithiau. Mae ganddo bwyslais cryf ar gadwraeth yr amgylchedd naturiol, er gwaethaf hefyd hybu rhywfaint o ddatblygiad gwledig. Mae'n cydnabod sut y mae'r amgylchedd naturiol yn sylfaen i gynaliadwyedd economaidd ac mae ganddo bwyslais cryf iawn ar ddiogelu'r amgylchedd.

#### **Gwneud Dim**

1.1.27 Ni ragwelwyd effeithiau cryf ar gyfer yr opsiwn 'gwneud dim'. Byddai Cynllun Gofodol Cymru a pholisïau a strategaethau eraill yn parhau i fod ar waith heb yr FfDC. Ond mae'r tueddiadau, megis amddifadedd uwch na'r cyfartaledd yng nghymoedd y de a rhai o drefi arfordirol y gogledd, yn debygol o barhau, gan arwain at gymysgedd o effeithiau a allai fod yn gadarnhaol ac yn negyddol heb weithredu'r FfDC.

### **Canlyniadau'r arfarniad – Yr Opsiwn a Ffefrir (a aseswyd fis Chwefror 2018)**

1.1.28 Yn dilyn asesiad yr Opsiynau a Ffefrir, mireiniodd tîm Llywodraeth Cymru Opsiynau'r FfDC, a datblygwyd drafft cyntaf o'r Opsiwn a Ffefrir. Yna defnyddiwyd adborth o'r ACI o'r Opsiwn a Ffefrir hwn i fireinio fersiwn derfynol o'r Opsiwn a Ffefrir.

1.1.29 Datblygwyd 'Yr Opsiwn a Ffefrir' ar bum thema, gan adlewyrchu Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 10 (PCC):

- Creu Lleoedd;
- Lleoedd Unigryw a Naturiol;
- Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus;
- Lleoedd Egniol a Chymdeithasol; a
- Rhanbarthau Cymru.

1.1.30 Nid ystyriwyd bod Opsiynau Amgen 1 – 4 yn gwbl ffafriol gan fod pob un yn dangos canlyniadau negyddol i raddau amrywiol ac ni fyddent yn cyflawni'r datblygiad cynaliadwy cytbwys sy'n ofynnol. Datblygodd Llywodraeth Cymru yr Opsiwn a Ffefrir, felly, drwy gyfuno buddion pob Opsiwn Amgen â'i gilydd gan hefyd liniaru'r effeithiau negyddol posibl. Rhagwelodd yr ACI o'r Opsiwn a Ffefrir yn gynnar yn 2018 effeithiau cadarnhaol cryf chwech o amcanion yr ACI, ac ni ragwelwyd effeithiau negyddol cryf.

1.1.31 Yn gynnar yn 2018, roedd yr Opsiwn a Ffefrir yn ceisio darparu fframwaith polisi cryf a oedd yn sicrhau canlyniadau iechyd a lles, ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol, a oedd yn ganolog i wneud penderfyniadau. Ffariwyd dull rhanbarthol er mwyn sicrhau y gellid gwella'r gallu i gael gafael ar wasanaethau a chyfleusterau cymunedol i gymunedau dan anfantais neu ddifreintiedig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Cynlluniwyd yr agenda datgarboneiddio a newid hinsawdd i wella cydnerthedd Cymru i effeithiau newid hinsawdd, a fyddai hefyd wedi bod yn debygol o arwain at fuddion cronol, hirdymor i iechyd a lles. Roedd yr Opsiwn a Ffefrir yn creu cyfleoedd i wella cysylltedd cymunedau yn sylweddol yn ogystal â'r gallu cynaliadwy i gael gafael ar gyfleusterau.

1.1.32 Roedd thema 'creu lleoedd' trosfwaol yr Opsiwn a Ffefrir yn 2018 yn amlygu y dylai cynhwysiant economaidd fod yn egwyddor bwysig yn yr FfDC, a bod yn rhaid i'r system gynllunio ddatblygu lleoedd sy'n creu swyddi, gwella sgiliau a chyflogadwyedd ac sy'n darparu amgylchedd i fusnesau dyfu a ffynnu. Elfen allweddol o'r Opsiwn a Ffefrir oedd y newid tuag at economi garbon isel, y rhagwelwyd y byddai'n arwain at amrywiaeth eang o effeithiau cynaliadwyedd cadarnhaol. Rhagwelwyd y byddai gan y dull rhanbarthol arfaethedig, a oedd yn cynnwys nodi dinas-ranbarthau

ac ardaloedd bargeinion twf, y potensial i greu rhagor o fuddion economaidd a rhoi pwyslais strategol ar gyfer buddsoddiad.

- 1.1.33 Mae datgarboneiddio a newid hinsawdd yn sylfeini allweddol i'r FfDC, ac roedd agweddau'n ymwneud â hyn wedi'u cyfuno drwy'r Opsiwn a Ffefrir yn gynnar yn 2018. Roedd y mesurau'n cynnwys: newid i economi garbon isel, mesur teithio llesol, datgarboneiddio trafndiaeth, cynhyrchu trydan o ffynonellau ynni carbon isel, a gweithredu mesurau seilwaith gwyrdd. Fodd bynnag, roedd y strategaeth hefyd yn cynnwys gofyniad am welliannau i, ac i ymestyn, y rhwydwaith ffyrdd cenedlaethol presennol. Yn yr hirdymor, rhagwelwyd y byddai gan hyn y potensial i arwain at gynnydd mewn traffig, ac effeithiau yn sgil hynny ar allyriadau nwyon tŷ gwydr. Ar yr un pryd, rhagwelwyd y byddai gan adeiladu ffyrdd y potensial i wella ansawdd yr aer mewn rhai cymunedau lleol.
- 1.1.34 Ar y cyfan, byddai Opsiwn a Ffefrir 2018 wedi bod yn debygol o gyfrannu tuag at ddiogelu a gwella tirweddau; morluniau; a safleoedd a chynefinoedd cadwraeth natur sy'n bwysig yn genedlaethol gan hefyd gryfhau seilwaith gwyrdd newydd mewn mannau ledled Cymru. Fodd bynnag, rhagwelwyd y byddai gan y gofyniad arfaethedig am welliannau i'r rhwydwaith ffyrdd cenedlaethol ac ymestyniadau iddo y potensial i arwain at gynnydd mewn traffig yn yr hirdymor, gan arwain at effeithiau negyddol sy'n gysylltiedig â hyn, fel gwaethygu llygredd sŵn yn y de-ddwyrain. Gallai datblygu dinas-ranbarthau ac ardaloedd twf waethygu hyn ymhellach. Byddai prosiectau seilwaith sylweddol, fel at ddibenion trafndiaeth neu ynni, hefyd wedi bod yn risg i dirweddau naturiol. Ond mae'n debygol y gellid lliniaru'r rhain i ryw raddau ar sail lefel y prosiect.

## Argymhellion

- 1.1.35 Er y rhagwelwyd effeithiau cadarnhaol cryf ar gyfer dangosyddion cymdeithasol ac economaidd, ystyriwyd drwy'r ACI y gellid bod wedi cryfhau'r potensial i'r FfDC gyfrannu at gynaliadwyedd amgylcheddol yn benodol. Er mwyn gwella'r potensial i'r Opsiwn a Ffefrir gyfrannu at amcanion yr ACI, nodwyd nifer o argymhellion, a ystyriwyd gan Lywodraeth Cymru. Cofnodir yr argymhellion hyn a'r modd y'u hystyriwyd yn y tabl arfarnu ar gyfer yr Opsiwn a Ffefrir yn Atodiad B. Defnyddiwyd yr adborth o'r ACI o'r Opsiwn a Ffefrir wedi hynny i fireinio'r fersiwn derfynol o'r Opsiwn a Ffefrir ar y pryd ac ymgynghorwyd ar hwn ochr yn ochr â'r Adroddiad ACI Dros Dro (Ebrill 2018).

## Canlyniadau'r arfarniad – FfDC Drafft (a aseswyd fis Mai 2019)

- 1.1.36 Yn dilyn sawl cylch o arfarniadau, argymhellion ac ymgynghoriadau, paratowyd FfDC Drafft gan Lywodraeth Cymru. Mae polisiâu'r FfDC Drafft wedi'u paratoi i gyflawni Canlyniadau'r FfDC a Strategaeth Ofodol yr FfDC. Arfarnwyd FfDC Drafft Gorffennaf 2019 (a aseswyd fis Mai 2019), gan gynnwys ei Strategaeth Ofodol a'r 33 o Bolisiâu, am eu heffeithiau tebygol yn erbyn pob un o Amcanion yr ACI yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor. Darperir crynodeb o ganfyddiadau asesu pob un o'r elfennau hyn isod, ac yna ceir dadansoddiad o effeithiau cronol, synergyddol ac eilaidd tebygol o holl effeithiau cynigion yr FfDC Drafft gyda'i gilydd.

## Strategaeth Ofodol

- 1.1.37 Byddai disgwyl i'r Strategaeth Ofodol a gynigir yn yr FfDC achosi effeithiau cynaliadwyedd cadarnhaol yn bennaf. Ar y cyfan, byddai disgwyl i'r strategaeth helpu i hwyluso hygyrchedd gwell a mwy o gapasiti yn y gwasanaethau addysg ac iechyd ledled Cymru. Byddai'r strategaeth hefyd yn hwyluso mynediad gwyd at fannau agored a chefn gwlad i bobl newydd, sy'n bwysig ar gyfer lles corfforol a lles meddwl. Dylai'r gefnogaeth ar gyfer twf economaidd sylweddol a thai newydd sy'n diwallu anghenion helpu i leihau tlodi a digartrefedd, a dylai olygu bod gan bobl o bob cefndir mewn llawer o ranbarthau Cymru fod â ffyrdd gwell ac ansawdd uchel o fyw'n iach. Byddai'r strategaeth yn debygol o helpu i gyfrannu at dwf economaidd sylweddol yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd trefol. Mae'n debygol y bydd hwb sylweddol i'r amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth mewn rhanbarthau ledled Cymru, a hygyrchedd y cyfleoedd hyn i ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran cyflogaeth ar hyn o bryd. Byddai disgwyl i'r strategaeth ofodol arfaethedig helpu i sicrhau bod anghenion tai a nodwyd yn cael eu diwallu ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

- 1.1.38 Byddai'r dull arfaethedig yn cyfeirio'r rhan fwyaf o'r datblygiad newydd tuag at ardaloedd trefol presennol a dylai hyn alluogi datblygiad mwy cynaliadwy sy'n hwyluso bywydau lefel carbon is i bobl yn sgil y mynediad da at ddulliau o drafnidiaeth gyhoeddus a'r pellterau byrrach y byddai angen eu teithio i ddefnyddio gwasanaethau ac amwynderau allweddol.
- 1.1.39 Gallai canolbwyntio datblygiad newydd yn yr ardaloedd hyn arwain hefyd at leihad yn y risg o lygredd amgylcheddol mewn ardaloedd mwy gwledig. Byddai disgwyl i ddatblygiad mewn trefi a dinasoedd presennol allu rheoli a gwneud defnydd mwy effeithlon a chynaliadwy o adnoddau naturiol, yn enwedig priddoedd, yn sgil y cyfleoedd i ddefnyddio safleoedd tir llwyd, adeiladau presennol a deunyddiau a aildefnyddir, gan arwain at effeithiau cadarnhaol.
- 1.1.40 Mae'n debygol y byddai'r strategaeth yn helpu i wella diwylliant Cymru i ryw raddau yn bennaf yn sgil y camau diogelu i ardaloedd gwledig lle mae lleoedd a gweithgareddau diwylliannol a thraddodiadol yn amlwg. Yn yr un modd, mae'r effeithiau arfaethedig ar yr iaith Gymraeg yn debygol o fod yn eithaf cyfyngedig.
- 1.1.41 Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar dri chlwstwr o drefi a dinasoedd mawr. Yn y rhanbarthau hyn ceir risg y byddai nifer sylweddol y datblygiadau arfaethedig yn arwain at gynydd yn y risg o lifogydd. Dylid cydnabod y gallai lleoli datblygiadau yn y prif drefi a dinasoedd gyfyngu ar yr effeithiau hyn gan fod digon o gyfleoedd i ddefnyddio safleoedd maes glas a gwella presenoldeb seilwaith gwyrdd.

## Polisiâu

- 1.1.42 Byddai disgwyl i bolisiâu'r FfDC gael effaith niwtral neu gadarnhaol ar Amcanion cymdeithasol ac economaidd yr ACI sy'n gysylltiedig â gwella addysg, iechyd, yr economi, cyflogaeth, cysylltedd, cydlyniant cymdeithasol a thai. Nodwyd effeithiau mwy cymysg ar gyfer Amcanion yr ACI sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys ynni ac allyriadau tŷ gwydr, ansawdd aer, y risg o lifogydd, dŵr, tirweddau a threfluniau, treftadaeth ddiwylliannol, bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, yn ogystal ag adnoddau naturiol. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r rhain, nid yw'n amlwg a fyddai'r effeithiau cadarnhaol neu negyddol yn gwrthbwysu ei gilydd. Mewn llawer o achosion mae'r effeithiau andwyol yn ymwneud â'r cynnydd yn y defnydd o adnoddau ac allyriadau yn sgil datblygiad newydd. Yn nodweddiadol mae datblygiad newydd yn cynnwys, er enghraifft, ychydig o gynydd yn y defnydd lleol o geir, dŵr ac ynni, y tir a gymerir neu newid i'r treflun o amgylch neu gymeriad y dirwedd. Mae'r polisiâu yn yr FfDC yn ceisio darparu fframwaith i sicrhau cyn lleied â phosibl o'r effeithiau hyn, neu eu lleihau, gan hefyd hybu datblygiad cynaliadwy er mwyn diwallu anghenion cymdeithasol ac economaidd y wlad.
- 1.1.43 Nodwyd effeithiau negyddol sylweddol yn yr hirdymor ar gyfer polisiâu P32 a P20 gan y byddent yn annog ac yn cefnogi ymestyn maes awyr Caerdydd a Phorthladd Caerdybi. Byddai disgwyl i'r ddau hyn arwain at gynydd a allai fod yn sylweddol mewn nwyon tŷ gwydr yn sgil mwy o symudiadau yn yr awyr ac ar y môr a'r cerbydau cysylltiedig. Argymhellir bod y cynigion hyn yn destun dadansoddiad mwy manwl o'u cyfraniad at allyriadau a allai lywio camau i liniaru'r effeithiau hyn.
- 1.1.44 Ar gyfer pob polisi, ystyriodd Llywodraeth Cymru opsiynau amgen rhesymol eraill gan gynnwys dull gwneud dim (h.y. dim polisi). Mae'r arfarniadau o'r opsiynau a ffeirir wedi eu gosod ochr yn ochr â'r arfarniadau o'u hopsiynau amgen rhesymol, a hynny er mwyn gallu eu cymharu'n gyflym. Bu canlyniadau'r asesiadau hyn o gymorth i'r gwneuthurwyr Cynllun wrth iddynt wneud penderfyniadau ynghylch pa opsiynau polisi i fynd ar eu trywydd, eu diwygio neu eu gwrthod.

## Osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau negyddol a sicrhau cymaint o effeithiau cadarnhaol â phosibl – crynodeb o'r argymhellion

- 1.1.45 Yn ystod proses ailadroddol yr ACI, mae'r FfDC wedi cynnwys amrywiaeth o argymhellion sydd wedi helpu i wella perfformiad cynaliadwyedd cyffredinol y cynigion FfDC. Trwy gydol yr arfarniadau o bolisiâu'r FfDC Drafft nodwyd argymhellion ar gyfer pob polisi yn erbyn pob Amcan ACI, pan fo'n briodol, er mwyn helpu i osgoi neu liniaru effeithiau negyddol ac i helpu i sicrhau

cymaint o effeithiau cadarnhaol â phosibl. Gellir crynhoi'r argymhellion a nodir yn yr Adroddiad ACI hwn i helpu i wella perfformiad cynaliadwyedd yr FfDC fel rhai sy'n cynnwys:

- Dylai'r FfDC sicrhau cymaint â phosibl o gyfleoedd i gryfhau cysylltiadau a chysylltedd rhwng ardaloedd gwledig a chymunedau mwy ynysig, drwy wasanaethau, amwynderau a nwyddau hanfodol sy'n cynnwys cyfleusterau addysg, gwasanaethau iechyd, ardaloedd cyflogaeth, manau cymunedol ac amrywiaeth eang o gynefinoedd naturiol.
- Rhagor o ddarpariaeth o seilwaith gwyrdd i wella'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys hwyluso symudiad rhydd bywyd gwyllt yn ogystal â llwybrau cerdded a beicio atyniadol a diogel ar gyfer pobl. Yn benodol, dylai'r rhwydwaith hwn geisio cysylltu pobl â lleoedd cyflogaeth. Gellir hefyd cynllunio, rheoli, gosod a lleoli'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd fel dull strategol er mwyn gwella'r gwasanaethau ecosystem eraill y byddai'n eu darparu, gan gynnwys hidlo llygryddion yn yr aer, casglu carbon, hidlo dŵr, lleihau'r risg o lifogydd, gwella cymeriad lleol, diogelu golygfeydd a gwarchod priddoedd.
- Gallai'r FfDC gynnwys mwy o bwyslais ar y risg o lifogydd yng Nghymru a sut y bydd yn newid yn sgil newid hinsawdd, yn enwedig gan fod yr FfDC yn ceisio cefnogi datblygiad mewn rhanbarthau amrywiol lle ceir risg o lifogydd fel Casnewydd, Caerdydd a Glannau Dyfrdwy.
- Gallai'r FfDC ystyried yn fwy gofalus effaith bosibl datblygiadau dwys mewn lleoliad trefol ar ansawdd aer ac i ba raddau y gellir rheoli hyn drwy ddyluniad a chynllun y datblygiad.
- Gellid ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau yng nghanol trefi a dinasoedd wella cymeriad treflun drwy gamau dylunio o ansawdd uchel, cynllun ystyriol a phensaernïaeth frodorol o bosibl gan hefyd wella hygyrchedd lleoedd a rhwydweithiau i bobl a natur yn ein trefluniau. Dylid cydnabod y potensial ar gyfer adfywio wedi'i arwain gan dreftadaeth a diwylliant yn y fan hon

## Canfyddiadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a sut y mae'r rhain wedi cyfrannu at yr asesiad

- 1.1.46 Mae proses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar wahân wedi cyd-fynd â phroses lunio'r FfDC a'i lywio. Mae Adroddiad HRA mis Mehefin 2019 wedi ei gwneud yn glir ei bod, ar y cam lefel uchel iawn hon o'r broses cynllunio datblygiadau yng Nghymru, yn anodd pennu sut y gallai penderfyniadau polisi strategol effeithio ar safleoedd a ddynodir gan Ewrop. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y goblygiadau posibl ar gyfer safleoedd Natura 2000/ Ramsar wedi'u hystyried trwy gydol datblygiad y Cynllun ac felly mae osgoi problemau yn gynnar (a/neu leihau risg) wedi bod yn elfen allweddol o'r broses.
- 1.1.47 Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi nodi'r math o effeithiau a allai godi drwy weithredu'r polisïau ac mae'n amlygu camau lliniaru y byddai angen eu hystyried wrth gynhyrchu cynlluniau haen is. Mae hyn wedi darparu lefel ychwanegol ragofalus o ddiogelwch i safleoedd Natura 2000/Ramsar, ac ystyrir y bydd hyn, a'r gofyniad cyfreithiol i gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o gynlluniau a phrosiectau haen is, yn darparu digon o gamau diogelu i gadarnhau na ragwelir unrhyw effeithiau andwyol ar uniondeb.

## Monitro effeithiau sylweddol

- 1.1.48 Mae'r ACI wedi nodi effeithiau tebygol yr FfDC ar Amcanion yr ACI dros y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor. Nodwyd sicrwydd yr effeithiau hyn hefyd. Fodd bynnag, ceir risg bod effeithiau cynaliadwyedd yr FfDC, gan gynnwys effeithiau polisïau penodol neu effeithiau cronol polisïau gyda'i gilydd, yn wahanol i'r rhai a ragwelir, er enghraifft yn sgil amgylchiadau na chawsant eu darogan. Mae monitro effeithiau'r FfDC a'u cymharu â'r effeithiau a ragwelwyd, felly, yn gydran hanfodol o gyflawni datblygiad cynaliadwy. Mae monitro rheolaidd, felly, yn galluogi awdurdodau perthnasol i newid cynlluniau fel bo angen, pe byddai effeithiau negyddol annisgwyl yn codi neu pe na fyddai effeithiau cadarnhaol disgwyliedig yn codi.
- 1.1.49 Mae fframwaith monitro drafft, yn cynnwys yr effeithiau hynny y ceisir eu monitro, wedi'i gynnig yn yr Adroddiad ACI. Bydd y dangosyddion i'w monitro yn destun trafodaeth â Llywodraeth Cymru a chânt

eu cyhoeddi yn yr Adroddiad ACI Terfynol. Yn ogystal â monitro i ba raddau y mae'r FfDC yn achosi'r effeithiau a nodir yn yr ACI, mae'r fframwaith monitro yn nodi effeithiau'r FfDC ar y llinell sylfaen amgylcheddol yng Nghymru a gellir cymharu hyn â thueddiadau'r llinell sylfaenol hon yn y dyfodol.

## Ymgynghori a'r Camau Nesaf

- 1.1.50 Yn ystod haf 2019 cynhelir ymgynghoriad ar yr FfDC Drafft a'r dogfennau sy'n cyd-fynd ag ef, gan gynnwys yr Adroddiad ACI hwn, gyda chyrff amrywiol, gan gynnwys y cyrff statudol Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw, yn ogystal â'r cyhoedd. Caiff ymatebion yr ymgynghoriad eu hadolygu a'u hystyried wrth baratoi'r FfDC Terfynol a'r Adroddiad ACI Terfynol a fydd yn cyd-fynd ag ef. Caiff yr Adroddiad ACI ei ddiweddarau yn unol ag unrhyw newidiadau a wnaed i'r FfDC wrth iddo drawsnewid o fod yn fersiwn Ddrafft i fod yn fersiwn Derfynol.

Arcadis Consulting (UK) Limited

Level 1  
2 Glass Wharf  
Temple Quay  
Bristol  
BS2 0FR

Ffôn: +44 (0)117 372 1200

[arcadis.com](https://www.arcadis.com)

